Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynghorydd Bryan Davies
Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion

Bryan.Davies@ceredigion.gov.uk

Dyddiad: 24 Ionawr 2023

Annwyl Gadeirydd

**Cymorth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus 2023-24 i 2025-26**

Yn ddiweddar, cymeradwyodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Rebecca Evans AS, gyllid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2023-24 i 2025-26 ar sail ranbarthol. Hefyd fe ddywedodd y Gweinidog fod y cyllid grant ar gael am gyfnod o dair blynedd.

Nod y cymorth hwn yn bennaf yw helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gryfhau lefelau ymgysylltu a chyfranogi wrth ichi ddechrau ar y cylch nesaf o'ch cynlluniau llesiant lleol.

Unwaith yn rhagor cynigir y cyllid ar batrwm ehangach sy'n adlewyrchu ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol, gan annog y defnydd o ddulliau gweithredu cyson a'r angen i osgoi dyblygu ymdrechion ar draws y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynigir cymorth hyd at **uchafswm o £69,803 ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru** ar gyfer pob blwyddyn ariannol 2023-24, 2024-25 a 2025-26. Mae'n ofynnol ichi gyflwyno'r ffurflen sy'n disgrifio'ch cynnig ym mis Chwefror, cyn i'r flwyddyn ariannol newydd ddechrau. Cyhoeddir y ffurflen a'r meini prawf ym mis Ionawr bob blwyddyn. Ni fydd y cyllid ond yn cael ei dalu ar gyfer gweithgareddau sydd wedi eu cymeradwyo fel y disgrifir yn y meini prawf yn Atodiad 1.

Mae'r dogfennau sy'n ymwneud â'r cyllid wedi eu hatodi:

- Mae Atodiad 1 yn disgrifio'r dibenion y gellir defnyddio'r cyllid ar eu cyfer a'r dibenion na cheir defnyddio'r cyllid ar eu cyfer.
- Atodiad 2 yw'r ffurflen gais am gyllid.


Parc Cathays ▪ Cathays Park
Caerdydd ▪ Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn * Tel 03000 250530
Kevin.griffiths@gov.wales
Gwefan/Website: gov.wales

Bydd angen i’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy’n dymuno manteisio ar y cyllid hwn nodi awdurdod arweiniol er mwyn cyflwyno’r cais, gan gwblhau’r ffurflen sy’n disgrifio’r cynnig yn Atodiad 2 erbyn dydd Gwener 24 Chwefror 2023, a hynny’n seiliedig ar y meini prawf a ddisgrifir yn Atodiad 1.  Ni fydd cynigion sy’n dod i law ar ôl y dyddiad hwnnw’n cael eu derbyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cyllid sydd ar gael a’r meini prawf perthnasol, cysylltwch â Hilary Maggs a Judith Davies yn y Tîm Partneriaethau Llywodraeth Leol, (LGPartnerships@llyw.cymru).

Yn gywir



**Kevin Griffiths**
**Pennaeth Partneriaethau Llywodraeth Leol**